Department for
Energy Security
& Net Zero

# Ymgynghoriad | Cynllunio ar gyfer Seilwaith Ynni Newydd

## Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft Diwygiedig ar Seilwaith Ynni

Dyddiad Cau: 29 Mai 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn energyNPS@energysecurity.gov.uk

# Cynnwys


**Gwybodaeth gyffredinol** 4

Pam rydym yn ymgynghori 4

Manylion yr ymgynghoriad 4

Cyfrinachedd a Diogelu Data 5

Sut mae ymateb 5

Sicrhau ansawdd 6

**Cyflwyniad** 7

Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni? 7

Trefniadau pontio 8

**Meysydd a chwestiynau polisi allweddol** 9

Pŵer Glân 2030 9

Cwestiynau 9

Ynni gwynt ar y tir 10

Cwestiwn 10

Ynni Gwynt ar y Môr 11

Cwestiwn 11

Seilwaith y Rhwydwaith Trydan 12

Cwestiynau 14

Sylwadau eraill 15

Cwestiynau 15

**Y camau nesaf** 16

**Cwestiynau'r ymgynghoriad** 17

Pŵer Glân 2030 17

Ynni Gwynt ar y Tir 17

Ynni Gwynt ar y Môr 17

Seilwaith y Rhwydwaith Trydan 17

Sylwadau eraill 18

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam rydym yn ymgynghori

Cafodd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni eu dynodi o dan Ddeddf Cynllunio 2008 i roi arweiniad i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio polisi'r llywodraeth wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygu mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Diweddarwyd y gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net ym mis Ionawr 2024.

Ym mis Gorffennaf 2024, lansiodd y llywodraeth adolygiad o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni i sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau ynni'r llywodraeth a nodir yn y genhadaeth Pŵer Glân.

Mae Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030[1] y llywodraeth yn nodi'r llwybr tuag at system bŵer glân erbyn 2030 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024, yn yr un modd â'i ymateb i ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a newidiadau eraill i'r system gynllunio[2]. Mae'r dogfennau hyn yn sefydlu llwybrau i sicrhau bod o leiaf 95% o'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu ym Mhrydain Fawr yn dod o ffynonellau glân erbyn 2030, gan gynnwys drwy ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i'r drefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Yn dilyn adolygiad o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol EN-1 i EN-5 ar ynni, mae'r llywodraeth wedi llunio diweddariadau i EN-1 (Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar ynni), EN-3 (seilwaith ynni adnewyddadwy) ac EN-5 (rhwydweithiau trydan). Gwnaed rhai diweddariadau sylweddol i'r tri Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft hyn ar ynni y mae angen ymgynghori arnynt. Mae'r ymgynghoriad hwn yn targedu'r newidiadau sylweddol hynny mewn polisi.

Gwnaed mân newidiadau eraill i wneud y canllawiau'n fwy eglur; mae'r rhain yn newidiadau ansylweddol nad ydynt yn golygu newidiadau mewn polisi.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd:** 24 Ebrill 2025

**Ymateb erbyn:** 29 Mai 2025

**Ymholiadau i:** energyNPS@energysecurity.gov.uk *(peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn, gweler y manylion isod ar gyfer ymateb drwy Citizen Space)*

[1] https://www.gov.uk/government/publications/clean-power-2030-action-plan.cy
[2] https://www.gov.uk/government/consultations/proposed-reforms-to-the-national-planning-policy-framework-and-other-changes-to-the-planning-system/outcome/government-response-to-the-proposed-reforms-to-the-national-planning-policy-framework-and-other-changes-to-the-planning-system-consultation

**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Cynllunio ar gyfer Seilwaith Ynni Newydd | Datganiadau Polisi Cenedlaethol Drafft ar gyfer seilwaith ynni

**Cynulleidfa:** Mae'r llywodraeth eisiau clywed gan aelodau o'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall.

**Rhychwant tiriogaethol:** Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn mewn grym ar draws Cymru, Lloegr, dyfroedd tiriogaethol cyfagos a'r Parth Ynni Adnewyddadwy ar y môr (ac eithrio unrhyw ran y mae gan Weinidogion yr Alban swyddogaethau mewn perthynas â hi).

Er bod y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni ond mewn grym yn uniongyrchol yn yr Alban mewn un ffordd (mewn perthynas â phiblinellau traws gwlad rhwng yr Alban a Chymru neu Loegr), mae polisi ynni fel arfer yn fater a gedwir yn ôl i Weinidogion y DU ac felly gall y dogfennau fod yn ystyriaethau perthnasol mewn penderfyniadau cynllunio yn yr Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae caniatâd cynllunio ar gyfer pob prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, yn ogystal â'r rhan fwyaf o bolisïau ynni, wedi'u datganoli i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Nodir rhychwant tiriogaethol pob Datganiad Polisi Cenedlaethol ar ynni yn Rhan 1 o bob dogfen.

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gall yr wybodaeth a roddir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu'n unol â deddfwriaethau'r DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, rhowch wybod i ni, ond dylech fod yn ymwybodol na allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn gais i gadw cyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau diogelu data perthnasol. Gweler ein polisi preifatrwydd.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar wefan GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill pobl.

## Sut mae ymateb

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn drwy'r llwyfan e-ymgynghori ar-lein, Citizen Space.

Yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r llywodraeth eisiau clywed gan aelodau o'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall. Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, sut gwnaethoch chi gasglu barn yr aelodau.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os yw'n ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er y croesewir rhagor o sylwadau a thystiolaeth hefyd. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth nag ymatebion sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

Mae ymgynghoriadau yn cael llawer iawn o ddiddordeb ar draws nifer o sectorau. Mae defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn helpu ein dadansoddiad o'r ymatebion yn fawr, gan alluogi ystyriaeth fwy effeithlon ac effeithiol o'r materion a godwyd. Felly, rydym yn annog yn gryf eich bod yn ymateb drwy Citizen Space. **Cysylltwch â ni os ydych yn bwriadu ymateb gan ddefnyddio dull arall.**

**Ymatebwch ar-lein yn:** https://energygovuk.citizenspace.com/energy-security/nps-revisions-2025

Rydym yn eich cynghori i beidio ag anfon ymatebion drwy'r post i'r adran ar hyn o bryd, oherwydd ei bod yn bosibl na fyddwn yn gallu eu gweld.

## Sicrhau ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd y mae eich cais wedi cael ei drin, anfonwch e-bost at: bru@energysecurity.gov.uk.

# Cyflwyniad

Cafodd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni eu dynodi o dan Ddeddf Cynllunio 2008 i roi arweiniad i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio polisi'r llywodraeth wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygu mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Eu swyddogaeth yw nodi'n glir bod angen sefydledig am y seilwaith dan sylw a sut mae polisi presennol yn berthnasol i gydsyniad datblygu, gan ddileu trafodaethau ynghylch rhinweddau polisi llywodraethol o'r fath o'r broses archwilio er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail ystyriaethau cynllunio yn unig.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Canghellor adolygiad o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol presennol ar ynni i sicrhau eu bod yn adlewyrchu polisi ynni cyfredol ac yn galluogi fframwaith polisi cynllunio sy'n gallu sicrhau buddsoddiad yn y seilwaith sydd ei angen i gyflawni Pŵer Glân erbyn 2030 a Sero Net erbyn 2050.

Ers y cyhoeddiad, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, sy'n nodi sut mae'r llywodraeth yn bwriadu ehangu seilwaith ynni carbon isel i sicrhau ein bod yn diogelu ffynonellau ynni a bod o leiaf 95% o'r ynni a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau glân erbyn 2030. Ymgynghorodd y Llywodraeth hefyd ar ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i'r drefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan osod Offeryn Statudol cadarnhaol yn y Senedd ar 10 Mawrth 2025.

Gwnaed nifer o newidiadau sylweddol i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft diweddaraf ar ynni i adlewyrchu polisi newydd, ac rydym nawr yn ymgynghori ar y rhain cyn y gallwn symud ymlaen i gyhoeddi cyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru ar ynni.

## Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni?

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn nodi polisi ynni cenedlaethol ac yn darparu'r seiliau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, yn amodol ar gais am Gydsyniad Datblygu o dan adran 104 o Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae EN-1 yn nodi'r achos o anghenion cyffredinol a'r egwyddorion asesu cyffredinol, ac mae EN-2 i EN-6 yn nodi egwyddorion asesu sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg. Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y llywodraeth fersiwn drafft o EN-7, Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer cynhyrchu ynni niwclear, ar gyfer ymgynghoriad.

Ynghyd â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar ynni, mae dwy ddogfen gysylltiedig sy'n ystyried yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol y gallai seilwaith eu cael ar yr ardal leol, ac ar Gymru a'r Alban. Yr Arfarniadau Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw'r rhain.

## Trefniadau pontio

Tra bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal, mae’r gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol yn dal yn berthnasol i bolisi’r llywodraeth, ac mae EN-1 i EN-5 yn cael effaith at ddibenion Deddf Cynllunio 2008.

Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y dylai’r gyfres gyfredol o Ddatganiadau Polisi Cynllunio ar ynni, a gyhoeddwyd yn 2024, ddod i rym ar gyfer unrhyw gais a dderbynnir i’w archwilio cyn diwygio’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni. Felly, bydd y Datganiadau ond yn dod i rym mewn perthynas â’r ceisiadau hynny am gydsyniad datblygu a dderbynnir i’w harchwilio ar ôl cyhoeddi’r Datganiadau diwygiedig terfynol ar ynni. Fodd bynnag, gall unrhyw Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol drafft ar ynni sy’n dod i’r amlwg (neu’r rheini a ddiwygiwyd ond nad ydynt wedi dod i rym) fod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mater i’r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ei ystyried o fewn fframwaith Deddf Cynllunio 2008 yw i ba raddau y maent yn berthnasol ac mewn perthynas ag amgylchiadau penodol pob cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

# Meysydd a chwestiynau polisi allweddol

## Pŵer Glân 2030

Yng Nghynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, ymrwymodd y llywodraeth i ddiweddaru'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni yn 2025 i adlewyrchu anghenion Pŵer Glân 2030, gan wella sicrwydd polisi i ddatblygwyr ac awdurdodau archwilio. Diweddarwyd y naratif polisi drwy EN-1 i sicrhau mai Pŵer Glân 2030 yw'r prif bolisi y mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn ei alluogi. Mae'n cyfeirio at Gynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, sy'n cynnwys yr ystodau o ran capasiti ar gyfer technolegau yn 2030 y mae'r Datganiadau'n eu cefnogi. Er mwyn cyflawni Pŵer Glân 2030 yn llwyddiannus, bydd angen cyflwyno ynni glân newydd yn gyflym. Mae darparu Pŵer Glân 2030 hefyd yn braenaru'r tir ar gyfer datgarboneiddio'r economi ehangach erbyn 2050, a bydd canolbwyntio'r naratif ar y system gynllunio ac o'i chwmpas yn ei gwneud yn bosibl i ni gyflawni'r ystodau hynny drwy sicrhau bod datblygwyr yn cyflwyno prosiectau perthnasol.

Gall prosiectau sy'n berthnasol ar gyfer Pŵer Glân 2030 gael eu hystyried yn Flaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol, gyda rhagdybiaeth o blaid caniatáu. Mae hyn yn golygu na fydd prosiectau Troi Gwastraff yn Ynni yn elwa o bolisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol ddim mwy gan nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o dechnoleg pŵer glân yng Nghynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030.

Cafodd polisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol ei gyflwyno yn y gwelliannau blaenorol i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn 2024. Mae'r polisi'n caniatáu i bwysigrwydd seilwaith carbon isel gael ei ystyried yn ystod proses yr Ysgrifennydd Gwladol o wneud penderfyniadau. Mae'r polisi'n golygu, ar gyfer prosiectau seilwaith cymwys, lle mae effeithiau gweddilliol yn parhau i fodoli ar ôl defnyddio'r hierarchaeth lliniaru, ei bod yn annhebygol y bydd caniatâd yn cael ei wrthod ar sail yr effeithiau gweddilliol hyn. Bwriad y newidiadau yn y Datganiad yw dwyn ymlaen ceisiadau o ansawdd uwch er mwyn galluogi'r system gynllunio i weithredu'n fwy effeithiol.

### Cwestiynau

1. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod cynnwys polisi Pŵer Glan 2030 yn EN-1 yn rhoi digon o arweiniad i ddatblygwyr wrth ddwyn ymlaen prosiectau perthnasol?

2. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y diweddariadau i'r polisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol yn helpu i gynnig ansawdd uwch?

# Ynni gwynt ar y tir

Mae ynni gwynt ar y tir yn dechnoleg aeddfed, effeithlon a chost isel sy’n chwarae rhan bwysig yng nghymysgedd ynni’r DU. Mae’r defnydd helaeth o ffermydd gwynt ar y tir yn hanfodol er mwyn bodloni llwybr y llywodraeth tuag at bŵer glân erbyn 2030. Mae Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 yn amcangyfrif y bydd angen 27-29GW o gapasiti gwynt gweithredol ar y tir erbyn 2030.

Mae’n hanfodol bod datblygwyr yn defnyddio’r llwybr cynllunio mwyaf effeithlon i gael caniatâd ar gyfer eu prosiectau ynni er mwyn i ni allu gwneud y DU yn archbŵer ynni glân. Dyna pam, ar ôl ymgynghori, yr ymrwymodd y llywodraeth ym mis Rhagfyr 2024 i ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i’r drefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar drothwy o 100MW.

Bydd ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i’r drefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn sicrhau y bydd yn cael ei thrin yn yr un modd â thechnolegau cynhyrchu eraill fel solar, gwynt ar y môr a niwclear. Bydd hyn yn darparu llwybr priodol ar gyfer prosiectau mawr sy’n ceisio caniatâd cynllunio, lle gellir cydbwyso effeithiau lleol yn ofalus yn erbyn y manteision cenedlaethol a chyflawni nodau datgarboneiddio ehangach y DU. Er mwyn cefnogi’r gwaith o asesu a phenderfynu ar brosiectau ynni ar y tir sy’n ymuno â’r drefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae’r llywodraeth wedi cynnwys adran newydd yn EN-3 sy’n mynd i’r afael â’r effeithiau, yr ystyriaethau a’r materion eraill sy’n benodol i ynni gwynt ar y tir.

## Cwestiwn

3. A oes gennych sylwadau neu welliannau ar unrhyw agwedd ar y canllawiau newydd ar gyfer ynni gwynt ar y tir?

# Ynni Gwynt ar y Môr

Ar y cam cynllunio ar gyfer fferm wynt arfaethedig ar y môr, rydym yn argymell yn EN-3 y dylid cynnal asesiad o sgil effeithiau rhyng-aráe rhwng ymgeiswyr a’r rheini sydd â chaniatâd, a ffermydd gwynt gweithredol yn y cam cyn ymgeisio i lywio a chefnogi’r gwaith o ystyried mesurau lliniaru posibl.

Rydym yn cynnig y dylai datblygwyr wneud ymdrechion rhesymol i ddangos eu bod wedi ystyried sut i reoli sgil effeithiau ar ddefnyddwyr eraill, a nodi enghreifftiau o beth y gallai hyn ei gynnwys.

Mae’n egluro bod dulliau posibl yn cynnwys egluro sut mae ffurfweddiad y prosiect wedi esblygu yn ystod y broses ddylunio i leihau’r effaith neu osgoi’r ffurfweddiadau sy’n cael yr effaith fwyaf, neu reoli cynllun aráe tyrbinau gwynt ar y môr arfaethedig i ddewis cynlluniau sydd â llai o sgil effeithiau pellter hir ar ddefnyddwyr eraill.

Y nod wrth gynnwys y rhain yw rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y gall ymgeiswyr ystyried ac o bosibl liniaru sgil effeithiau rhyng-aráe rhwng datblygiadau newydd a ffermydd gwynt cyfagos sydd â chaniatâd a rhai sy’n weithredol, a sut y gallent ddangos eu hymdrechion i reoli’r effeithiau hynny, gan ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o ddulliau yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Mae’r cynigion sydd wedi’u cynnwys yn nodi yr argymhellir, yn ystod y cam cyn ymgeisio, cynnal asesiad o sgil effeithiau rhyng-aráe rhwng ymgeiswyr a’r ffermydd gwynt hynny sydd wedi cael caniatâd a’r rhai sy’n weithredol.

## Cwestiwn

4. A oes gennych sylwadau ar unrhyw agwedd ar y canllawiau newydd ar gyfer ynni gwynt ar y môr?

# Seilwaith y Rhwydwaith Trydan

Mae angen ehangiad unwaith mewn cenhedlaeth ar rwydwaith trydan Prydain Fawr er mwyn darparu ynni glân newydd a gynhyrchir gartref i gartrefi a busnesau ar hyd a lled y wlad. Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu i adeiladu'r seilwaith newydd hwn yn gyflymach, gan gynnal proses drylwyr i leihau'r costau a'r effeithiau.

*Cymeradwyo'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog*

Mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu dull cyfannol o gynllunio seilwaith trawsyrru er mwyn diwallu'r cynnydd yn y galw am drydan carbon isel, gan ddiogelu ffynonellau ynni a chyrraedd y nod sero net cenedlaethol. Gan adeiladu ar waith Dylunio Rhwydwaith Cyfannol y "Llwybr at 2030" ar gyfer ynni gwynt ar y môr ac adroddiadau "Y Tu Hwnt i 2030" (Beyond 2030), bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) yn helpu i leihau effaith gyffredinol seilwaith drwy edrych yn gydlynol ar y rhwydwaith ynni ar y tir ac ar y môr. Bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn darparu dull gweithredu annibynnol, hirdymor hyd at 2050 ar sut dylai'r rhwydwaith trawsyrru ddatblygu i gyflawni nodau diogelwch ynni a datgarboneiddio. Bydd yn cael ei gyflwyno gan y Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO) a'i reoleiddio gan Ofgem. Bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog cyntaf yn cael ei gyflwyno yn 2027. Bydd cynlluniau rhwydwaith yn ystyried effeithiau amgylcheddol a chymunedol, ochr yn ochr â chyflawni, ymarferoldeb a chost economaidd, o'r cychwyn cyntaf.

Er y bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn mynd i'r afael â ffyrdd o drosglwyddo ynni fel nwy naturiol a hydrogen, mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn ymwneud â gwelliant arfaethedig i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol i gymeradwyo argymhellion y Cynllun ar gyfer seilwaith trawsyrru trydan.

Bydd proses y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn darparu asesiad cadarn o'r opsiynau posibl. Byddai cymeradwyo drwy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn golygu nad oes yn rhaid i'r broses gydsynio archwilio'r achos angen a'r math o dechnoleg ar gyfer prosiectau sy'n glynu wrth argymhellion y Cynllun. Byddai'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog yn sefydlu'r achos angen a'r ateb technolegol; gallai dileu hyn o'r broses gydsynio gyflymu'r cam cyn cydsynio a lleihau'r risg ar lefel prosiect.

Bydd y broses gymeradwyo'n cynnwys:

- **Yr achos angen ar gyfer atgyfnerthu**
- **Paramedrau strategol atgyfnerthu:** cerrynt uniongyrchol foltedd uchel ar y tir/ar y môr neu gerrynt amgen foltedd uchel, yr amlen ofodol – ardal benodol lle bydd opsiynau'n cael eu hasesu, gan ystyried sut mae'n cysylltu â'r Brif System Trawsyrru Rhyng-gysylltiedig.
- **Ceisiadau rheoli newid nad ydynt yn gwyro oddi wrth Asesiad Amgylcheddol Strategol y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog.** Os ceir gwybodaeth newydd, gall prosiectau gyflwyno cais rheoli newid i'w asesu gan NESO. Bydd y cynnig yn cael ei asesu yn erbyn amcanion strategol y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog. Bydd y

Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cydsynio i newid cymeradwy sy'n cyd-fynd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol y Cynllun.

Ni fydd y broses gymeradwyo'n cynnwys:

- **Llwybro dangosol rhwng y seilwaith sy'n cael ei argymell:** bydd penderfyniadau llwybro yn cael eu cadarnhau yn ystod y broses Dylunio Rhwydwaith Manwl yn unol ag arolygon ac ymgynghoriadau priodol. O'r herwydd, gall llwybrau newid ac ni ddylid eu hystyried yn rhai sefydlog at ddibenion cynllunio.

Mae'r newid arfaethedig yn cynnal y rhagdybiaeth gychwynnol bresennol ar gyfer llinellau uwchben y tu allan i dirweddau sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol yn EN-5.

Bydd asesiadau amgylcheddol statudol yn cael eu cynnal ar y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd cymeradwyaeth yn swyddogol unwaith y bydd yr asesiadau hyn wedi'u cwblhau ac ar ôl chyhoeddi'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog ar wefan NESO.

Ar gyfer seilwaith cynhyrchu, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol eisoes yn nodi'r achos angen, ond mae cyfeiriad bellach at y Cynllun Ynni Gofodol Strategol hefyd.

*Cyfeiriad at yr Egwyddorion Dylunio ar gyfer Trawsyrru Trydan*

Mae Perchnogion Trawsyrru yn dilyn proses ddylunio ddilyniannol sy'n caniatáu iddynt gyflawni rhwymedigaethau eu trwydded a chydymffurfio â gofynion cynllunio, gan gynnwys y rheini a nodir yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn enwedig Rheolau Holford a Horlock.

Yn ei rôl flaenorol fel Comisiynydd Rhwydweithiau Trydan, rhoddwyd y dasg i'r Comisiynydd Pŵer Glân Nick Winser yn 2023 i nodi cyfleoedd i gyflymu'r gwaith o ddarparu seilwaith trawsyrru. Canfu y gallai y gallai gwahanol bartïon ddehongli'r canllawiau dylunio mewn gwahanol ffyrdd, a gallai hynny arwain at wahaniaethau sy'n codi mewn cymeradwyaethau rheoleiddiol a chynllunio ac y gallai olygu bod angen i ddatblygwyr greu dyluniadau llwybrau lluosog i'w hail-gymeradwyo. Ar ben hynny, daeth i'r casgliad bod diffyg eglurder o ran yr opsiynau dylunio ar gyfer lliniaru effeithiau.

Argymhellodd y Comisiynydd Pŵer Glân yr Egwyddorion Dylunio Trawsyrru Trydan fel ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn. Bwriad yr Egwyddorion yw rhoi mwy o eglurder ynghylch y math o ased i'w ddefnyddio mewn gwahanol amgylcheddau, i amlinellu sut y gellir lliniaru effaith y seilwaith trawsyrru ar yr amgylchedd, y dirwedd a'r cymunedau, ac i nodi hyblygrwydd wrth ddylunio llwybrau a thechnolegau.

Bydd yr Egwyddorion yn helpu i wella mesurau lliniaru a chefnogi cysondeb rhwng prosesau cynllunio a rheoleiddio ac yn rhoi eglurder i gymunedau ynghylch ble mae yna ddewisiadau a'r rhesymeg dros ddefnyddio gwahanol fathau o asedau mewn gwahanol amgylcheddau.

Argymhellodd y Comisiynydd Pŵer Glân hefyd y dylai Datganiadau Polisi Cenedlaethol (Cymru a Lloegr) a Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban gyfeirio at yr Egwyddorion Dylunio Trawsyrru Trydan.

NESO sy'n arwain y gwaith o ddatblygu'r Egwyddorion gyda mewnbwn gan weithgor sy'n cynnwys yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, yr Arolygiaeth Gynllunio, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Ofgem, y Perchnogion Trawsyrru a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae NESO hefyd yn ymgynghori â rhanddeiliaid y tu allan i'r gweithgor hwn ac mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddorion drafft maes o law.

Wrth baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a chyhoeddi'r Egwyddorion Dylunio Trawsyrru Trydan, rydym yn cynnig diwygio EN-5 i gyfeirio at yr Egwyddorion, gan nodi y dylai datblygwyr ystyried yr Egwyddorion, fel sy'n berthnasol, yn ogystal â rheolau Holford a Horlock. Dim ond ar ôl cyhoeddi fersiwn derfynol yr Egwyddorion y bydd hyn yn berthnasol a dim ond i brosiectau yng ngham blaen strategol y broses ddylunio neu'n gynharach y bydd yn berthnasol.

## Cwestiynau

*Cymeradwyo'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog*

5. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig yn EN-5 i gymeradwyo'r argymhellion trawsyrru trydan a nodir yn y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog i gyflymu amseroedd cydsynio a chefnogi'r gwaith o uwchraddio'r grid trydan?

6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig?

*Cyfeiriad at yr Egwyddorion Dylunio ar gyfer Trawsyrru Trydan*

7. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig yn EN-5 i gyfeirio at yr Egwyddorion Dylunio ar gyfer Trawsyrru Trydan ac i nodi y dylai datblygwyr ystyried yr Egwyddorion, fel sy'n berthnasol, yn ogystal â rheolau Holford a Horlock?

8. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn?

# Sylwadau eraill

Mae'r llywodraeth yn croesawu barn am unrhyw agwedd arall ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft ar ynni neu ddogfennau cysylltiedig nad yw'r cwestiynau blaenorol yn ymdrin â nhw.

Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth nag ymatebion sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

## Cwestiynau

9. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft ar ynni neu ddogfennau cysylltiedig nad oedd y cwestiynau blaenorol yn ymdrin â nhw?

# Y camau nesaf

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 29 Mai 2025.

Bydd y llywodraeth yn ystyried yr ymatebion a ddaw i law, cyn cyhoeddi ymateb ffurfiol a Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft diwygiedig ar ynni lle bo angen. Bydd y Llywodraeth wedyn yn bwrw ymlaen i gyflwyno'r dogfennau i'w cymeradwyo ger bron y senedd.

Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol ("diwygio") y Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn ar ynni fyddai'r brif ystyriaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arolygiaeth Gynllunio pan fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith ynni o arwyddocâd cenedlaethol.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae’r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gwestiynau’r ymgynghoriad a restrir isod. Fodd bynnag, mae croeso i ymatebwyr wneud sylwadau eraill, a bydd y llywodraeth yn ystyried y rhain lle bo hynny’n briodol. Wrth ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad hwn bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy’n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth nag ymatebion sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

## Pŵer Glân 2030

1. I ba raddau ydych chi’n meddwl bod cynnwys polisi Pŵer Glan 2030 yn EN-1 yn rhoi digon o arweiniad i ddatblygwyr wrth ddwyn ymlaen prosiectau perthnasol?

2. I ba raddau ydych chi’n meddwl bod y diweddariadau i’r polisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol yn helpu i ddwyn ymlaen cynigion o ansawdd uwch?

## Ynni Gwynt ar y Tir

3. A oes gennych sylwadau neu welliannau ar unrhyw agwedd ar y canllawiau newydd ar gyfer ynni gwynt ar y tir?

## Ynni Gwynt ar y Môr

4. A oes gennych sylwadau ar unrhyw agwedd ar y canllawiau sydd wedi’u diweddaru ar gyfer ynni gwynt ar y môr?

## Seilwaith y Rhwydwaith Trydan

*Cymeradwyo’r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog*

5. Ydych chi’n cytuno â’r cynnig yn EN-5 i gymeradwyo’r argymhellion trawsyrru trydan a nodir yn y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog i gyflymu amseroedd cydsynio a chefnogi’r gwaith o uwchraddio’r grid trydan?

6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig?

*Cyfeiriad at yr Egwyddorion Dylunio ar gyfer Trawsyrru Trydan*

7. Ydych chi’n cytuno â’r cynnig yn EN-5 i gyfeirio at yr Egwyddorion Dylunio ar gyfer Trawsyrru Trydan ac i nodi y dylai datblygwyr ystyried yr Egwyddorion, fel sy’n berthnasol, yn ogystal â rheolau Holford a Horlock?

8. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn?

## Sylwadau eraill

9. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft ar ynni neu ddogfennau cysylltiedig nad oedd y cwestiynau blaenorol yn ymdrin â nhw?

Mae’r ymgynghoriad hwn ar gael yn: https://energygovuk.citizenspace.com/energy-security/nps-revisions-2025

Os hoffech chi gael fersiwn o’r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost: enquiries@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch chi. Bydd yn help i ni os byddwch chi’n dweud pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi’n ei defnyddio.